Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad Apêl

gan N Jones BA (Anrh) MSc MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 04/09/2023

Cyfeirnod yr apêl: CAS-02469-J6J4B8

Cyfeiriad y safle: Plasyngheidio, Boduan, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8YL

- Cyflwynir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Cyflwynir yr apêl gan Mrs Anwen Jane Davies yn erbyn penderfyniad Cyngor Gwynedd.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf. C20/0102/33/LL, dyddiedig 10 Chwefror 2020, trwy hysbysiad dyddiedig 6 Gorffennaf 2022.
- Y datblygiad a gynigir yw ymestyn y safle carafannau teithio presennol i dir cyfagos trwy greu mynedfa newydd o'r safle gwersylla presennol, adleoli un garafán deithio ac ychwanegu 8 carafán deithio newydd.
- Cynhaliwyd ymweliad safle ar 1 Awst 2023.

## Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

## Materion Gweithdrefnol

2. Rwyf wedi defnyddio cyfeiriad y safle fel y mae'n ymddangos ar y ffurflen gais ond wedi defnyddio disgrifiad y Cyngor o'r datblygiad gan ei fod yn fwy cryno.

## Y Prif Fater

3. Y prif fater yw effaith y datblygiad ar gymeriad a golwg yr ardal, gan roi ystyriaeth arbennig i Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Gorllewin Llŷn.

## Rhesymau

4. Cyrhaeddir safle'r apêl oddi ar is-ffordd i'r de o gylchfan Bryn Cynan yr A497 o fewn yr ATA ddynodedig. Byddai'r cynnig yn ymestyn parc carafannau sefydledig sy'n cynnal 19 o leiniau carafannau teithio, 2 bod gwyliau a chyfleusterau cysylltiedig, i gae cyffiniol ar lefel uwch. Mae safle'r apêl wedi'i leoli i'r gorllewin o'r annedd fferm a'i hadeiladau sy'n cyffinio â'r is-ffordd i'r dwyrain. Byddai 8 llain ychwanegol yn cael eu darparu, yn ogystal ag adleoli lle ar gyfer un llain bresennol i ganiatáu mynediad, a byddent wedi'u lleoli'n gyfochrog â'r unedau presennol.

5. Mae Polisi TWR 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) Ynys Môn a Gwynedd yn datgan y bydd cynigion ar gyfer carafannau teithio, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro, gan gynnwys estyniadau i safleoedd carafannau teithio presennol a lleiniau

ychwanegol, yn cael eu caniatáu ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'i feini prawf rhestredig. O ran y rhain, mae'r safle'n agos i'r rhwydwaith priffyrdd a byddai ganddo fynediad digonol; byddai'r unedau'n cael eu meddiannu at ddibenion gwyliau yn unig, byddai gan yr unedau arfaethedig gysylltiad ffisegol cyfyngedig â'r tir a byddent yn cael eu symud ymaith o'r safle pan na fyddent yn cael eu defnyddio; ni fyddai ardaloedd gormodol o lawr caled a byddai cyfleusterau'n cael eu darparu o fewn adeilad presennol. Fodd bynnag, mae Polisi TWR 5 hefyd yn ceisio osgoi niwed i ansawdd gweledol y dirwedd trwy fynnu bod unrhyw gynnig yn cael ei leoli mewn man anymwthiol sydd wedi'i sgrinio'n dda gan nodweddion tirwedd presennol a/neu lle y gellir cymathu unedau i'r dirwedd yn rhwydd. Mae'r esboniad i'r polisi'n diffinio man anymwthiol fel un sy'n cael ei sgrinio'n dda gan nodweddion tirwedd presennol a/neu lle y gellir cymathu unedau teithio i'r dirwedd yn rhwydd heb fod angen nodweddion gormodol o wneuthuriad dyn, fel llawr caled a ffensys.

6. Mae Polisïau PCYFF 4 ac AMG 2 y CDLlC hefyd yn mynnu y dylai cynigion, ymhlith pethau eraill, integreiddio i'w hamgylchoedd ac y dylent geisio cynnal, gwella neu adfer cymeriad a nodweddion cydnabyddedig yr ATA. Er nad yw'r Cyngor wedi darparu unrhyw wybodaeth ynglŷn â gwerth neu arwyddocâd yr ATA, rwyf wedi ystyried Datganiad Tirwedd yr apelydd sydd, yn seiliedig ar leoliad y safle o fewn llwyfandir Gogledd-Orllewin ardal synhwyraidd gweledol Llŷn sydd o werth cymedrol yn ôl diffiniad LANDMAP, yn disgrifio'r lle fel tir amaeth dymunol â chaeau o faint canolig wedi'u ffinio gan gymysgedd o wrychoedd/ffensys postyn a gwifren, gyda phlanhigfeydd conifferaidd gwasgaredig a rhai ardaloedd o brysgwydd eithin, yn enwedig yn agosach i'r arfordir lle mae'r tir amaeth yn aml wedi'i ymylu â gwrychoedd sy'n cysylltu'r ffermydd a'r pentrefi bach gwasgaredig yn bennaf.

7. O ganlyniad i wahaniaeth o oddeutu 2m yn lefel yr wyneb a diffyg unrhyw sgrinio rhwng y safle carafannau presennol a'r ardal estynedig arfaethedig, ni fyddai cynnig yr apêl wedi'i leoli mewn man anymwthiol sydd wedi'i sgrinio'n dda gan nodweddion tirwedd presennol. Er mwyn sgrinio'r datblygiad arfaethedig, byddai angen gwaith peirianegol sylweddol i ostwng wyneb safle'r apêl oddeutu metr ar hyd llawer o hyd y cae ac ailbroffilio ei ffiniau gyda chlawdd 6m o led sy'n cyrraedd hyd at 2m o uchder. Felly, ni ellir cymathu'r cynnig i'r dirwedd yn rhwydd ychwaith heb fod angen nodweddion gormodol o wneuthuriad dyn.

8. Er y byddai ei ffurf yn donnog, ni fyddai'r clawdd arfaethedig yn nodwedd naturiol o ganlyniad i'w hyd a'i uchder sylweddol; yn hytrach, byddai'n elfen amlwg o fawr ac anghydnaws wedi'i pheiriannu. Er y byddai tirweddu naturiol helaeth yn cael ei wneud hefyd, byddai llawer ohono ar ffiniau safle'r apêl wedi'u hailbroffilio, gan bwysleisio ei raddfa sylweddol. Mae'r apelydd yn datgan y byddai'r rhywogaethau coed a gwrychoedd brodorol a blennir yn gwella ac yn adfer cymeriad yr ATA, dros gyfnod, drwy ychwanegu ardaloedd coediog aeddfed ychwanegol wedi'u britho â blodau gwyllt a fyddai'n trawsnewid glaswelltir ungnwd mawr yn nodwedd dirwedd fwy bioamrywiol. Fodd bynnag, gwelais fod y rhan hon o'r ATA wedi'i nodweddu gan ei thirwedd agored ac eang a chlytwaith cyson o gaeau amaethyddol wedi'u diffinio gan gloddiau a gwrychoedd llinellog, heb goed ac ardaloedd coediog i raddau helaeth. Byddai cyflwyno tirweddu ar y raddfa ac o'r math a gynigir yn groes i'r patrwm unigryw o reolaidd hwn. O ganlyniad, byddai'r cynnig yn ffurfio cynllun amlwg ac ymwthiol na fyddai'n integreiddio'n briodol â'i amgylchoedd nac yn cynnal, gwella neu adfer cymeriad a nodweddion cydnabyddedig yr ATA.

9. Cydnabyddaf y byddai golygfeydd lleol o'r cynnig, gan gynnwys o'r llwybr troed agosaf, yn gyfyngedig o ganlyniad i'r dopograffeg ac y byddai'r plannu ychwanegol ar y safle presennol yn darparu rhywfaint o sgrinio ychwanegol. Fodd bynnag, gwelais na fyddai'r clawdd a'r plannu bwriadedig yn sgrinio'r carafannau teithio arfaethedig yn llwyr o olygfeydd wrth ymyl y ffordd ar hyd yr A497 a'r B4412 nac o olygfeydd uchel ger

cysylltiadau llwybr troed ar is-ffyrdd i'r gogledd, lle y byddai'r cynnig yn cael ei weld fel nodwedd amlwg sy'n amharu ar dirwedd fugeiliol ddeniadol fel arall.

10. Er bod yr apelydd yn tynnu sylw at y mast telathrebu presennol fel nodwedd wrthdyniadol, gwelais fod ei uchder a'i liw yn golygu nad yw'n cael mwy o effaith ar y dirwedd na pholion telegraff presennol. At hynny, ni fyddai ei fodolaeth yn cyfiawnhau cynllun yr apêl, sy'n ddatblygiad o fath gwahanol. Rwyf wedi ystyried datblygiadau eraill yn yr ardal a ddygwyd i'm sylw gan yr apelydd, ond gwelais er bod y safle yn Nhudweiliog mewn lleoliad arbennig o weladwy, mae wedi'i leoli'n agos i ddatblygiadau eraill tebyg. Mae'r enghreifftiau eraill hefyd o fewn lleoliadau gwahanol i gynllun yr apêl, felly rwyf wedi ystyried yr apêl ar sail ei rhinweddau ei hun. Rwyf hefyd wedi ystyried buddion y cynllun o ran arallgyfeirio fferm a gwelliannau bioamrywiaeth ac amgylcheddol, ond nid ydynt yn ddigonol i wrthbwyso'r niwed a amlygwyd gennyf.

11. Deuaf i'r casgliad y byddai'r cynnig yn niweidio cymeriad a golwg yr ardal ac na fyddai'n cynnal, gwella neu adfer cymeriad a nodweddion y rhan hon o'r ATA. Felly, byddai'n groes i Bolisïau TWR 5, PCYFF 4 ac AMG 2 y CDLlC.

**Mater Arall**

12. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cynghori bod y safle o fewn 120 metr o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Ffeniau Llŷn sy'n ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, sydd hefyd yn rhan o safle gwlyptir Ffeniau Ynys Môn a Llŷn a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Cors Geirch. Mae'n cynghori y dylid cynnal prawf o effeithiau arwyddocaol tebygol y cynnig ar y safle dynodedig hwn. Cydnabyddaf fod y Cyngor yn datgan bod trafodaethau ynglŷn â chais blaenorol yn dangos bod pryderon ynglŷn ag effeithiau posibl wedi derbyn sylw gan fesurau draenio arfaethedig, ond ni ddarperir unrhyw fanylion i gefnogi'r cynnig presennol fel y gellir ei hepgor o ofyniad ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) ('y Rheoliadau'). Er hynny, gan fy mod yn gwrthod yr apêl ar sail y prif fater, ni roddaf ragor o ystyriaeth i'r mater hwn.

**Casgliad**

13. Am y rhesymau uchod ac ar ôl ystyried yr holl faterion a godwyd, gwrthodir yr apêl.

14. Wrth ddod i'm penderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Rwyf o'r farn bod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor gynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion lles Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol gan adran 8 y Ddeddf.

*N Jones*

Arolygydd